| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 13 Chwefror 2025 |
| **TEITL YR EITEM** | Cynllun Economi Gwynedd |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Medwyn Hughes |
| **AWDUR YR ADRODDIAD** | Osian Elis, Arweinydd Tîm (Datblygu Busnesau Gwynedd)<br>Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned<br>Dylan Griffiths, Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Economaidd |

**1. PWRPAS YR EITEM – PAM FOD ANGEN EI GRAFFU?**

1.1. I adrodd ar y gwaith o lunio Cynllun Economi newydd i Wynedd, gan wahodd mewnbwn yr Aelodau ar gynnwys yr adroddiad hwn ac ar faterion pellach y credir y dylid eu hystyried wrth greu'r Cynllun.

**2. CRYNODEB A MATERION ALLWEDDOL**

2.1. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau y mae'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd wedi'u cymryd er mwyn datblygu Cynllun Economi newydd i Wynedd. Oherwydd y gofyn ar gyrff cyhoeddus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ystyried y Pum Ffordd o Weithio wrth lunio unrhyw bolisi neu strategaeth newydd, rhennir datblygiad y Cynllun hyd yn hyn fesul y Ffyrdd o Weithio:

- Meddwl yn hir-dymor.
- Cynnwys rhan-ddeiliaid a thrigolion.
- Gweithredu ataliol.
- Integreiddio â chynlluniau strategol eraill.
- Cyd-weithio â phartneriaid.

2.2. Gofynnir am fewnbwn yr Aelodau ar gynnwys yr adroddiad hwn ac ar faterion pellach y credir y dylid eu hystyried wrth greu'r Cynllun. Ynghyd â'r mewnbwn a gyflëwyd gan y rhan-ddeiliaid eraill (Rhan 5.), bydd negeseuon y Pwyllgor yn cael eu hystyried wrth lunio drafft cychwynnol y Cynllun Economi.

**3. CEFNDIR A CHYD-DESTUN**

3.1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 25ain Ionawr 2024, cyflwynwyd adroddiad am y cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud yn erbyn y drydedd flaenoriaeth prosiect yn amcan "Gwynedd Lewyrchus" y cynllun corfforaethol, Cynllun y Cyngor (Gweler Eitem 5):

*"Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith."*

Yn adroddiad Eitem 5, daethpwyd i'r casgliad y byddai angen cynllunio ar gyfer y cyfnod wedi Mawrth 2025, hynny ar ffurf Cynllun Economi newydd i Wynedd. Mae'r adroddiad perfformiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2024 yn amlinellu cynnydd ar raglen waith y flaenoriaeth prosiect uchod.

3.2. Mae'n golygu nad oes gan y Cyngor gynllun strategol ffurfiol ar gyfer datblygu economi Gwynedd yn ei chyfanrwydd, er ein bod yn barod yn ymdrin ag adfywio a thwristiaeth yn benodol yn y Fframwaith Adfywio, y Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy a'r Cynllun Llechi. Ymdrinnir â'r economi hefyd yng Nghynllun y Cyngor yn yr amcan "Gwynedd Lewyrchus", ond hynny wrth gwrs yn y cyd-destun corfforaethol. Mae'n gofyn am gynllun hir-dymor, lefel-uchel at bwrpas datblygu economaidd yn benodol, ag ynddi weledigaeth a dull gweithredu sy'n ymdrin ag economi Gwynedd yn ei chyfanrwydd.

3.3. **Mae creu y math hyn o gynllun yn bwysig yn wyneb y newid tebygol mewn rhaglenni ariannu busnes a chronfeydd buddsoddi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG. Mae'r ansicrwydd hyn wedi'i nodi yng nghofrestr risg corfforaethol y Cyngor. Yn y cyd-destun hwn, bydd y Cynllun Economi yn gosod arweiniad strategol sy'n addas i'r cyfleon a'r heriau a geir yng Ngwynedd, waeth beth fo'r newidiadau yn y trefniadau ariannu rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd y Cynllun Economi hefyd yn fodd o gyfathrebu â phartneriaid strategol y mathau o bethau y ceisir eu cyflawni yng Ngwynedd, gan geisio am adnodd a chefnogaeth ar y sail hynny.**

**4. MEDDWL YN HIR-DYMOR**

4.1. Er mwyn sicrhau perthnasedd y Cynllun dros y tymor hwy, mae'r materion hir-dymor canlynol wedi'u hadnabod:

4.1.1. Mae proffil sectoraidd a chyflogaeth yr economi yng Ngwynedd yn dangos amrywiaeth cul o ddiwydiannau. Y sector gyhoeddus yw'r prif gyflogwr yng Ngwynedd, gyda mwy na thraean o weithwyr (36%) wedi'u cyflogi gan wasanaethau cyhoeddus – dibyniaeth sy'n uwch na chyfartaledd Cymru a rhanbarth y Gogledd. Yn yr un modd, mae cyfran y mentrau mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yng Ngwynedd (19%) yn ddwywaith yn uwch na Chymru a phedair gwaith yn uwch na'r DG (5%), a'r gyfran o fentrau mewn gweithgaredd llety a bwyd (13%) yn ddwywaith y ffigwr ar gyfer y DG. Mae'n adlewyrchu natur wledig yr economi, fel y mae'r gyfran is o (6%) fentrau mewn gweithgaredd proffesiynol, technegol, gwyddonol a gweinyddol yng Ngwynedd o gymharu â chyfartaledd y DG (14%), a'r gyfran isel o weithwyr (5%) mewn gweithgynhyrchu.[1]

4.1.2. Oherwydd y ddibyniaeth uwch ar ddiwydiannau tymhorol, mae cyfran uchel o weithwyr

[1] Cyfrifiad 2021 (ONS) – Cyflogaeth fesul diwydiant; Office for National Statistics (ONS), dyddiedig 25 Medi 2024, ONS website, statistical bulletin, UK business; activity, size and location: 2024.

yng Ngwynedd mewn swyddi rhan-amser (2023).

| | Rhan-amser | Llawn-amser |
|---|---|---|
| Gwynedd | 41% | 59% |
| Cymru | 34% | 66% |
| Y DG | 21% | 69% |

**Ffynhonnell:** ONS Business Register and Employment Survey.

4.1.3. Mae canran yr hunangyflogedig yng Ngwynedd (13%) yn uwch na chyfartaledd Cymru (8%) a'r DG (9%).[2] Bychain hefyd yw'r mentrau a geir yng Ngwynedd o ran y nifer a gyflogir, gyda 77% ohonynt yn cyflogi hyd at 4 person.[3]

4.1.4. Mae cynhyrchedd Gwynedd yn is na gweddill Cymru a'r DG, gyda Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) y pen yng Ngwynedd yn £20,950 o gymharu â £22,380 ledled Cymru £30,221 ar gyfer y DG i gyd.[4]

4.1.5. Yn rhannol o'r herwydd, mae Gwynedd yn wynebu cyflogau isel, gyda chyflog wythnosol llawn-amser yn £573 (Cymru: £636; DG: £682) ac incwm gros aelwydydd yn £17,430 (Cymru: £18,028; DG: £21,679).[5]

4.1.6. Mae hyn yn cyfrannu at lefel tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol uchel, er bod diweithdra yn is na chyfartaledd Cymru a'r DG. Yn ôl data diweddaraf y Dangosydd Amddifadedd Lluosog (MALIC) (2019), mae lefel tlodi yn uchel ledled y sir – yn wledig ac yn drefol, gydag amddifadedd wedi gwaethygu ers 2014 mewn sawl ardal; a chydag ardaloedd ym Mangor a Chaernarfon ymhlith y 10% tlodaf yng Nghymru.[6] Mae gan Wynedd y lefelau tlodi tanwydd uchaf yng Nghymru, a chan adlewyrchu natur dymhorol y gyflogaeth, mae hawliadau am Gredyd Cynhwysfawr yn codi yn nhymor y gaeaf ac yn is o lawer yn yr haf.

4.1.7. Mae Gwynedd yn wynebu her ddemograffig sylweddol oherwydd heneiddio'r boblogaeth a'r lefelau uchel o allfudo ymhlith pobl ifanc (<35 oed). Rhwng 2011 a 2021, gwelwyd cynnydd o 8.6% ym maint y boblogaeth hŷn yn y sir mewn oed ymddeol (>65),[7] ac yn y cyfnod rhwng 2001 a 2022, roedd mudo net negyddol ymhlith unigolion 15-39 oed yn

---

[2] ONS Annual Population Survey (Hyd. 2023 – Medi 2024), https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157384/report.aspx

[3] Office for National Statistics (ONS), dyddiedig 25 Medi 2024, ONS website, statistical bulletin, UK business; activity, size and location: 2024.

[4] Cyngor Gwynedd, *Adroddiad Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi* (2024): https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/g4895/Pecyn%20adroddiadau%20cyhoeddus%2025ain-Ion-2024%2010.30%20Pwyllgor%20Craffu%20Addysg%20ac%20Economi.pdf?T=10&LLL=1

[5] *Ibid*.

[6] Ystadegau ar gyfer Cymru, *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, Adroddiad Canlyniadau* (2019). [Ar-lein]: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-06/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019-adroddiad-canlyniadau.pdf.

[7] Cyfrifiad 2021 (ONS) – https://www.ons.gov.uk/visualisations/censuspopulationchange/W06000002/

gyfwerth â *c.* 3,600 ohonynt yn gadael Gwynedd.[8] Effaith hyn yw'r cwymp isod ym maint y boblogaeth oed gwaith (16-64 oed):

| Grŵp Oedran | 2011 | 2021 | +/- % |
|---|---|---|---|
| 16-24 oed | 16,723 | 14,260 | -14.7% |
| 25-34 oed | 12,532 | 13,127 | +4.7% |
| 35-49 oed | 22,808 | 18,659 | -18.2% |
| 50-64 oed | 23,720 | 24,655 | +3.9% |
| **Cyfanswm oedran gwaith (16-64 oed)** | **75,783** | **70,701** | **-6.7%** |

**Ffynhonnell:** Cyngor Gwynedd, *Llechen Lân* (2024, tud. 9).

Mae'n cynrychioli gostyngiad o *c.* 5,000 yn nifer y gweithwyr yng Ngwynedd. Mae'n debygol y bydd y boblogaeth oed gwaith yn gostwng ymhellach, gan ddwysau'r heriau recriwtio sydd eisoes yn bodoli ledled yr economi yng Ngwynedd.

4.1.8. Gwynedd yw'r sir â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg (64.4%) yng Nghymru ac yn ôl y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg i'w gweld yn y tri diwydiant canlynol yng Ngwynedd:

- Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd (84%).
- Amaethyddiaeth (84%).
- Y diwydiant adeiladu (74%).

Yn adroddiad y Comisiwn, gwneir y sylw y gallai unrhyw newid yn y diwydiannau hyn gael effaith strwythurol ar hyfywedd y Gymraeg yng Ngwynedd. O ran y berthynas rhwng yr economi a'r iaith felly, mae'r diwydiannau hyn yn greiddiol i'r Gymraeg – ac mae cyfle i gynyddu ei defnydd a'i gwelededd yn ehangach ledled yr economi.[9]

4.1.9. Mae datblygiadau mewn technolegau digidol, e.e., deallusrwydd artiffisial, yn debygol o greu cyfleon a heriau newydd. Mae'n gofyn am sgiliau digidol ymhlith gweithwyr a chysylltedd bang-eang digonol ym mhob rhan o'r sir. Mae mynediad at gysylltedd bang-eang cyflym wedi gwella yng Ngwynedd, ond mae'n parhau'n gymharol wan mewn rhai ardaloedd gwledig.

4.1.10. Mae gan Wynedd botensial sylweddol mewn diwydiannau gwerth uchel sydd eisoes yn bodoli yn y sir neu sydd â chyfle i ddatblygu o'r newydd. Yn ôl adroddiad a gomisiynwyd gan y Cyngor yn 2020, adnabuwyd y diwydiannau canlynol:

- Creadigol a digidol (e.g., sain a cherddoriaeth, cynhyrchu teledu a fideo).

[8] StatsCymru, Ystadegau ymfudo mewnol (ONS).
[9] Comisiwn Cymunedau Cymraeg, *Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg: Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar Gymunedau sydd â Dwysedd Uwch o Siaradwyr Cymraeg* (2024, tud. 22. [Ar-lein]: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-08/grymuso-cymunedau-cryfhaur-gymraeg.pdf

- Gwasanaethau proffesiynol ac ymgynghorol.
- Diwydiannau gwyrdd a glân.
- Gwyddorau bywyd.
- Gweithgynhyrchu uwch.
- Awyrofod.

4.1.11. Mae newid hinsawdd ymhlith y sialensiau mwyaf a wynebir. Mae'n glir y bydd newid yn yr hinsawdd yn creu problemau economaidd i Wynedd, gan ofyn am weithredu ataliol trwy hyrwyddo dulliau busnes gwyrdd a datgarboneiddio.

**5. CYNNWYS – MEWNBWN GAN Y CYHOEDD A RHAN-DDEILIAID**

5.1. Rydym wedi ceisio am fewnbwn gan yr amrywiaeth mwyaf posib o ran-ddeiliad er mwyn adnabod y cyfleon, heriau a'r problemau sy'n wynebu trigolion, cymunedau a busnesau Gwynedd, ynghyd â phartneriaid y Cyngor. Tynnir sylw at y prif negeseuon isod:

5.1.1. Defnyddiwyd yr Ymgynghoriad Ardal Ni a gynhaliwyd yn 2022 er mwyn deall yr hyn sy'n bwysig i drigolion Gwynedd, yr heriau a wynebant a sut yr hoffent weld eu hardaloedd lleol yn datblygu. Ledled Gwynedd, cyflëwyd y pryderon canlynol ynghylch yr economi:

- Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn-amser.
- Economi leol fregus a'r angen am fwy o gefnogaeth i fusnesau.
- Tlodi a chostau byw uchel.
- Allfudo ymhlith yr ifanc a diffyg cyfleon ar eu cyfer yn lleol.
- Strydoedd mawr yn dirywio.
- Yn eisiau economi ymweld cynaliadwy.

Cyflëwyd y dymuniad o gael economi mwy llewyrchus a gwydn, gyda rhagor o swyddi llawn-amser ar gyflogau da, a chyda'r Gymraeg a'r amgylchedd wedi'u gwarchod.

5.1.2. Cynhaliodd y Cyngor Arolwg Busnes yn 2024 er mwyn ennyn mewnbwn y mentrau a geir yng Ngwynedd o ran eu profiadau, eu bwriad i'r dyfodol a'r heriau a wynebant. Derbyniwyd ymatebion gan 130 o fusnesau ar draws 16 diwydiant, gan dderbyn yr oedd mentrau llety a gwesty wedi'u gor-gynrychioli rhyw ychydig yn y sampl (38.5%). Rhestrir y prif negeseuon isod:

- 43.1% eisiau tyfu eu busnes, 23.1% am gadw eu busnes fel ag y mae, ac 13.1% yn rhagweld y bydd angen cau eu busnes.
- 36.2% eisoes wedi profi anawsterau recriwtio.
- 65.7% yn darogan y byddent yn wynebu her yn recriwtio unigolion gyda'r profiadau a'r sgiliau perthnasol yn y dyfodol.
- 40.7% yn adnabod cynnydd mewn prisiau ynni fel her.
- 13% yn nodi diffyg cwsmeriaid a gostyngiad mewn galw yn her.
- 29.1% yn mynegi pryderon ynghylch rheoliadau newydd Llywodraeth Cymru a'r Cyngor.
- 28.5% eisiau cymorth marchnata.

- 21.5% eisiau cymorth i ddatblygu’n ddigidol.
- 16.2% eisiau cymorth i farchnata’n Gymraeg; 15.4% yn dymuno derbyn hyfforddiant ieithyddol.

5.1.3. Mae cyfres o gyfarfodydd hefyd wedi’u cynnal gyda phartneriaid strategol y tu mewn a thu allan i’r Cyngor, gyda’r nod o adnabod heriau a chyfleon yn y maes datblygu economaidd. Mae hyn yn cynnwys prif sefydliadau cyhoeddus y sir, prif gyflogwyr a chynrychiolwyr y sector breifat. Mae'r gyfres hon o gyfarfodydd yn parhau, ond hyd yma, mae'r negeseuon a dderbyniwyd yn cynnwys y canlynol:

- Ariannu tymor byr yn broblem.
- Pwysigrwydd uchafu gwerth a maint y gwariant cyhoeddus yn lleol.
- Cyflogaeth rhan-amser a chyflog isel yn broblem ac yn cyfrannu at lefel tlodi uchel.
- Cyfle i dyfu maint a chynhyrchedd y busnesau a geir yng Ngwynedd.
- Cyfle i fanteisio ar ddiwydiannau newydd gwerth uchel.
- Heneiddio’r boblogaeth ac allfudo ymhlith yr ifanc yn peri her i’r Gymraeg a’r economi.
- Bod yr economi yn gweithio er budd pobl Gwynedd.

## 6. GWEITHREDU ATALIOL – ATAL PROBLEMAU RHAG GODI NEU WAETHYGU

6.1. Yn seiliedig ar brif negeseuon yr ymchwil a chyfranogiad y cyhoedd a rhan-ddeiliaid, mae’r Gwasanaeth Datblygu Economaidd wedi adnabod cyfres o newidiadau y dymunir eu gweld yn economi Gwynedd, i’w hymgorffori maes o law yng nghynnwys y *Cynllun Economi* er mwyn gweithredu arnynt:

- Amrywio’r economi gydag ystod ehangach o ddiwydiannau, gan gynnwys rhai gwerth uchel.
- Gwella trafnidiaeth a chysyllted digidol gwledig.
- Rhyddhau a chefnogi potensial y busnesau a’r mentrau a geir yn barod yng Ngwynedd.
- Cynyddu cynhyrchedd y pen.
- Gwella lefelau cyflog a lleihau dibyniaeth ar swyddi tymhorol, ansicr.
- Lefelau tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol yn is.
- Mwy o bobl ifanc yn aros yng Ngwynedd neu’n dychwelyd i fyw a gweithio, gyda chefnogaeth hefyd i bobl hŷn mewn oedran ymddeol i barhau i weithio a chyfrannu, ble’u bod eisiau.
- Economi ecolegol bositif sy’n datgarboneiddio.
- Defnydd a gwelededd y Gymraeg yn cynyddu.

**Twf at bwrpas felly, nid twf er ei fwyn ei hun; yn gynhwysol a chynaliadwy, yn sicrhau’r buddion gorau posibl i’r nifer mwyaf o bobl yng Ngwynedd, a chyda’r Gymraeg a’r amgylchedd wedi’u gwarchod a’u cryfhau.** H.y., datblygu’r economi at bwrpas cynhwysol ac i gyfrannu at les trigolion Gwynedd.

## 7. INTEGREIDDIO – SICRHAU CYSONDEB Â CHYNLLUNIAU STRATEGOL ERAILL

7.1. Er mwyn asio Cynllun Economi Gwynedd gyda chynlluniau eraill, rydym wedi ystyried y cyd-destun strategol ehangach y bydd y Cynllun wedi'i leoli ynddo.

7.1.1. Yn gorfforaethol, mae'n golygu ymateb i'r cyfeiriad strategol sydd wedi'i osod yn barod ar gyfer yr economi yn amcan "Gwynedd Lewyrchus" y Cynllun Cyngor:

*"Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng."*

Dylid hefyd ymgorffori'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a geir yn y cynlluniau y mae'r Cyngor yn barod yn gweithredu arnynt ym maes economi – Y Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy, Y Cynllun Llechi a'r Fframwaith Adfywio.

7.1.2. Mae sgyrsiau hefyd wedi'u cael â Swyddogion Iaith y Cyngor a'r Uned Gaffael er mwyn asio â'r Strategaeth Iaith corfforaethol a'r Cynllun Caffael newydd y mae'r Cyngor yn ei ddatblygu. Yn yr un modd, ymgynghorwyd â Rheolwr Rhaglen y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol i ystyried Amcanion Llesiant y Bwrdd yn y Cynllun Llesiant Lleol, 2023-28.

7.1.3. Y bwriad yw paratoi asesiad ffurfiol maes o law yn gwerthuso cyfraniad y Cynllun Economi at saith Amcan Llesiant y Cyngor, fel y'u diffinnir yng Nghynllun y Cyngor.

## 8. CYD-WEITHIO – GWEITHIO Â PHARTNERIAID

8.1. Bydd angen cyd-weithio yn ystod cyfnod gweithredol y *Cynllun* er mwyn uchafu ei werth.

8.1.1. Mae cryn ymgysylltu eisoes wedi digwydd er mwyn ennyn perchnogaeth a diddordeb yn y Cynllun ymhlith partneriaid. I'r pwrpas hwn, mae sgyrsiau wedi'u cael â rhan-ddeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, hynny gyda'r bwriad o'u cynnwys trwy gydol cyfnod byw y Cynllun – e.g., prif gyflogwyr lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau addysg uwch a bellach, busnesau a mentrau cymunedol, a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG.

8.1.2. Yn wyneb y pwyslais cynyddol a roddir ar gyd-weithio rhanbarthol yn y maes datblygu economaidd, yn enwedig yn y Gogledd ar ffurf y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r Bwrdd Uchelgais, ond hefyd yn y Gorllewin ar hyd gogwydd de-gogledd y Bartneriaeth ARFOR, bydd angen ystyried y cyd-destyn cyd-weithio hyn yn gyson yn ystod cyfnod byw y Cynllun.

## 9. EFFAITH AR NODWEDDION CYDRADDOLDEB, Y GYMRAEG A'R DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

9.1. Bwriedir paratoi asesiadau cydraddoldeb ac ieithyddol llawn maes o law fel atodiadau i'r Cynllun Economi. Byddwn yn ennyn mewnbwn Swyddogion Cydraddoldeb ac Iaith y Cyngor wrth baratoi'r dogfennau hyn.

## 10. Y CAMAU NESAF

10.1. O dderbyn adborth yr Aelodau, bydd y Gwasanaeth Datblygu Economaidd yn mynd ati baratoi drafft o'r *Cynllun Economi*, gyda'r bwriad o'i gyflwyno i gyfarfod y Cabinet ar yr 8fed Ebrill eleni er mwyn ei fabwysiadu.